

Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
ddydd Mercher 7 Mehefin 2017
yng Nghanolfan Beicio Mynydd Oneplanet Adventure, Llandegla
am 5:30pm

Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire (Cadeirydd)
Gwen Butler (Is-gadeirydd)
Heather Fitzgerald
Y Cyng. Martyn Holland
Kevin Slattery
Max Grant
Kay Culhane
Tom Woodall
Jim Gaffney
Paul Frost
Duncan Barratt

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad ac Ysgrifennydd y Fforwm
Mynediad Lleol)
Howard Sutcliffe (Swyddog Cefn Gwlad)

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)

Arsylwyr

Tom Culhane

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: -

Nicholas Lloyd, Chris Marshall, Hugh Crosswood, Iona Pierce, Hilary Davies, Jo Hughes, John Buckley, Toni Proffitt

Cyflwyniadau

Duncan a Paul. Paul yn gweithio ar brosiect gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Ymddiheuriadau a Chofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Rhestrodd HA yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd ac fe gyflwynodd pawb nhw eu hunain a'u diddordebau.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd nodiadau'r cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cynigiwyd hyn gan y Cyngorydd Holland ac fe'i heiliwyd gan Tom Woodall. Wrth fynd drwy'r nodiadau, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

Tudalen 3: Gofynnodd PF am eglurhad pam nad oedd prosiectau'n cael eu hariannu am dair blynedd drwy Deithio Llesol. Dywedodd HA y byddai prosiectau a gyflwynwyd o fewn y cyfnod ymgeisio'n cael eu hystyried i gael eu hariannu dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, roedd y siaradwyr wedi gwneud cais i brosiectau llai barhau i gael eu hanfon at yr awdurdodau lleol, hyd yn oed pan oedd y cyfnod ariannu wedi dod i ben, gan fod cynlluniau cyllid llai ar gael a fyddai'n gallu cynnig cymorth yn y cyfamser.

Tudalen 2: Rhoddodd KS ddiweddariad ar gynllun 'Donate a Gate' sydd ar Ynys Wyth. Hyd yma, mae 160 o giatau wedi'u cyfrannu drwy'r cynllun, a ddechreuwyd gan *Ramblers* Ynys Wyth. Bydd KS yn teithio i Ynys Wyth dros yr haf a bydd yn gweld y giatau sydd wedi'u gosod yn rhan o'r cynllun. Mike Slater yw'r cyswllt yn y *Ramblers*. Gofynnodd KS am roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ynglŷn â'r cynllun ac fe gyflwynodd erthygl o gylchgrawn *Walk* a soniai fod y cynllun yn cael ei fabwysiadu ym Mharc Cenedlaethol Gweunydd Gogledd Swydd Efrog. Mae adborth o Fforwm Mynediad Lleol Eryri ddydd Llun yn dweud bod cynllun tebyg wedi'i ddechrau yn Ardal y Llynnoedd drwy gynllun cyfrannu.

Cytunodd y Cadeirydd i KS roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ac fe ofynnodd i HS ynglŷn â'r polisi cofebion yn Sir Ddinbych. Dywedodd HS nad polisi dim cofebion ydyw, ond ymdrech i osgoi placiau ac annog ewyllys da drwy gyfraniadau. Mae hyn yn osgoi personoli, a ddaw drwy osod plac neu fannau cysegr sydd i'w gweld weithiau ac sy'n gallu amharu ar fwynhad pobl eraill o gefn gwlad. Dangosodd HS enghraifft ar lwybr llusgo'r gamlas yn Llangollen, lle mae mainc a gwllâu blodau wedi'u gosod heb ganiatâd perchennog y tir.

Gofynnodd TW a oedd unrhyw ffordd y gellid cydnabod y rhai sy'n cyfrannu neu'r rhai sy'n cael eu cofio. Dywedodd HS y byddai llythyr yn cael ei anfon at y teulu ac y gellid cadw llyfr cydnabyddiaeth ym Mharc Gwledig Loggerheads.

Tudalen 4: Eglurodd PF y cwestiwn a godwyd ynglŷn â marchogaeth ar bafin neu lôn feicio.

Mae'r gyfraith yn dweud na ddylid marchogaeth ar bafin/llwybr cerdded ac mae'r Cod Priffyrdd yn nodi na ddylid marchogaeth ar lwybr beicio.

Tudalen 6: Mapiau swyddogol

Crybwyllodd GB nad oes gan Gyngor Cymuned Llandyrnog fap swyddogol o'r plwyf.

AP1	Adrian Walls i gysylltu â Chyngor Cymuned Llandyrnog ynglŷn â map swyddogol o'r plwyf.	
AP 2	Tim Faire i wirio gyda chlerc Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd a oes arnynt angen map swyddogol.	

Tudalen 6: Cerdded Conwy

Amygodd PF y gallai cynghorau cymuned wneud cais i'r Gist Gymunedol (Grant y Loteri Genedlaethol ar gyfer gweithgarwch corfforol) i hyfforddi arweinydd teithiau cerdded. Y swm mwyaf sydd ar gael yw £1,500. Ychwanegodd SW bod ceisiadau wedi'u gwneud i'r gronfa hon i hyfforddi arweinydd teithiau cerdded. Dywedodd PF y gallai *Ramblers* wneud cais yn ogystal â grwpiau lleol eraill er mwyn cynyddu faint o gyllid sydd ar gael a gweithio gyda'r Awdurdod Lleol i wneud y gorau ohono.

Tudalen 6: ail baragraff Diweddariadau Mapiau OS

Mae MG wedi cael canlyniad cadarnhaol drwy CNC ac fe ddylai'r holl fapiau ar-lein fod yn rhai cyfredol erbyn diwedd mis Mehefin. Bydd unrhyw fapiau sydd wedi'u hargraffu ar ôl hynny'n rhai cyfredol.

Diweddariad o Gyfarfod y Cadeirydd, Ebrill 2017

Cafwyd diweddariad gan TF o gyfarfod y Cadeirydd a gynhaliwyd yn y Drenewydd fis Ebrill. Nid oedd TF a GB yn ymwybodol bod y Fforwm Mynediad Lleol yn gorff statudol ac roedd rhai Fforymau Mynediad Lleol yn credu y gallai'r ALL sy'n cynnal y Fforwm fod â buddiannau sy'n gwrthdaro. Roedd y ddau'n cytuno nad oedd hyn yn broblem gyda Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych ac roeddent yn teimlo y byddai'n amhosibl i'r Fforwm hwn barhau heb gymorth yr awdurdodau lleol a'r Ysgrifennydd. Ychwanegodd HS bod y wybodaeth ar sefydlu Fforymau Mynediad Lleol yn awgrymu y dylai Awdurdodau Lleol ddarparu'r ysgrifenyddiaeth. Pe bai'r grŵp yn cael ei arwain ormod gan yr ysgrifennydd, dywedodd TW bod posib' y byddai angen ystyried hynny. Teimlwyd nad oedd hynny'n broblem ar gyfer y Fforwm hwn. Ychwanegodd TF nad beirniadaeth oedd hynny i fod.

Cyfeiriodd GB at eitem ar y rhaglen yng nghyfarfod y Cadeirydd a oedd yn ymwneud â'r berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Fforwm Mynediad Lleol. Roedd un grŵp Fforwm Mynediad Lleol wedi cyfleu siom nad oedd staff uwch yn yr Awdurdod Lleol ar gael i ddod i gyfarfodydd ymgynghori ac nid oeddent yn ymgysylltu ag ysgrifennydd yr ALL rhagor. Pan ofynnwyd iddynt pwy

oedd yn gweinyddu ac yn pennu'r rhaglen, yr argraff a gafwyd oedd bod ganddynt unigolion yn y grŵp a oedd yn fodlon gwneud hynny. Gofynnodd KC sut roeddent yn cyflwyno'r gweithrediadau i'r ALL. Ymddengys fod hyn yn digwydd drwy ohebiaeth ffurfiol. Nid oes unrhyw swyddogion yn dod i'r Fforwm. Gofynnodd PF a oedd aelodau'r Fforwm wedi camddeall gan fod swyddogion yr ALL yno i'w gefnogi a'i gynghori.

Diweddariad ar Gynllun Amaeth-Amgylcheddol Glastir

Rhoddodd HA gyflwyniad. Mae rhywfaint o ddi-ddordeb wedi bod yn y rhan fynediad yng nghynllun Glastir ers cyhoeddi y bydd y cynllun yn parhau. Nid oedd Jane Tibbott o Lywodraeth Cymru'n gallu cyrraedd y cyfarfod ond mae'n gobeithio dod i'r cyfarfod fis Medi. Rhannodd HA bapur briffio gan Lywodraeth Cymru ac fe amlygodd rai o'r amserlenni a oedd wedi'u nodi.

Ychwanegodd MG bod Llywodraeth Cymru wedi darparu CD y tro diwethaf iddo fod ynghlwm drwy Fforwm Mynediad Lleol Conwy. HA i wirio gydag AW a SW i wirio gyda VC ynglŷn â lleoliad y CDs hyn ac a ydynt ar gael.

Ychwanegodd TF y gallai rhai llwybrau sydd â chaniatâd, a grëwyd drwy TG, bellach fod wedi'u colli, ond bod hwn yn gyfle delfrydol i achub y llwybrau os yw ffermwyr yn mynd yn ôl i'r cynllun.

Ychwanegodd HS y gallai fod yn anodd gwybod beth i'w gynnwys gan nad ydym yn gwybod pwy sydd wedi gwneud cais i fod yn rhan o'r cynllun. Efallai y bydd angen i ffermwyr weithio gyda'u cymdogion er mwyn darparu mynediad o unrhyw werth. Dywedodd HS fod hwn yn gyfle gwych i'r siroedd gydweithio.

Gofynnodd TF a fyddai modd i'r ALL alluogi'r is-grŵp drwy ddarparu mapiau a manylion llwybrau pengoll.

AP 3	Hannah Arndt a Sian Williams i siarad â swyddogion Hawliau Tramwy, dod o hyd i CDs â'r llwybrau Glastir diwethaf. Darparu manylion llwybrau pengoll hefyd, fel man cychwyn.
-------------	--

Trosolwg o Oneplanet Adventure

Gwahoddodd y Cadeirydd JG i roi trosolwg o'r ganolfan beicio mynydd i aelodau sydd, o bosib', yn anghyfarwydd â'r ardal neu sydd heb ymweld â'r Ganolfan.

Soniodd JG fel y cychwynwyd Oneplanet Adventure drwy gyllid a oedd ar gael yn dilyn Clwy'r Traed a'r Genau i sefydlu a chynorthwyo busnesau twristiaeth. Roedd JG yn gweithio yn CSDd ar y pryd fel swyddog beicio ac yn gweithio i gynyddu twristiaeth ar ôl Clwy'r Traed a'r Genau. Roedd ei gontract ar fin dod i ben, felly fe gyflwynodd JG ac Ian Owen, ei bartner busnes, bellach, dendr i redeg y busnes. Ymysg y cyfleusterau mae caffi, siop, lle i logi beiciau a gweithdy. Mae modd defnyddio'r llwybrau am ddim ond mae tâl am barcio. Ar hyn o bryd, mae tua 40km o lwybrau, wedi'u dosbarthu mewn modd tebyg i lethrau sgïo. Mae'r llwybrau'n denu tua 170,000 o ymwelwyr pob blwyddyn. Eglwys Lloegr sydd piau'r goedwig.

Gofynnodd KS sut mae'r llwybrau'n cael eu cynnal a'u cadw. Mae gwaith cynnal a chadw'n cael ei ariannu drwy incwm y maes parcio. Mae angen contractwyr arbenigol ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith ac maent hefyd yn cynnal cynllun gwirfoddolwyr 'trail pixies'. Ychwanegodd JG bod sawl grŵp ysgol yn dod i helpu a'i bod yn braf cael gweithio gyda phlant sydd am ollwng dipyn o stêm a defnyddio'u nerth!

Mae llwybrau rhedeg wedi bod yn ychwanegiad llwyddiannus i'r cynnig a dywedodd JG bod Oneplanet Adventure yma i helpu rhai nad ydynt yn gyfforddus wrth fynd â map i'r rhwydwaith ehangach i ddod i fwynhau cefn gwlad. Mae'r ganolfan yn rhoi cyfle i gael profiad ar y llwybrau cyn

mentro i ddefnyddio'r llwybrau sydd ar wefan *Ride North Wales*. Coedwig fasnachol yw Coed Llandegla, yn bennaf. Plannwyd y coed ar yr un adeg ac maent bellach yn aeddfed. Mae dull sensitif o dorri rhannau ar y tro ac ailblannu coed yn y manau hynny ar hyn o bryd. Mae torri rhannau'n newid y goedwig a'r golygfeydd sydd i'w gweld ac mae rhannau o'r goedwig a dorwyd cyn creu'r llwybrau bellach yn dod yn aeddfed. Dywedodd JS ei bod yn bwysig nodi na fyddai'r llwybrau yno heb y coed.

Ychwanegwyd bod y ganolfan beicio mynydd wedi helpu busnesau lleol eraill i ffynnu ac roedd o fantais i wersyllfaoedd a darparwyd llety lleol yn ardal Llandegla. Ychwanegodd HS ei farn ef ei bod yn rhaid i fusnesau eraill weld sut y gallent fanteisio ar lwyddiant y ganolfan feicio mynydd, a dyna roedd rhai busnesau yn amlwg wedi'i wneud.

Diweddariad ar Adolygiad o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy

Darparodd SW ddiweddariad ar ran CBS Conwy. Mae Victoria Currie bellach yn treulio un diwrnod yr wythnos yn adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae llythyr wedi'i ddrافتio sy'n manylu ar amserlen y gwaith ac yn nodi y dylai drafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fod ar gael ym mis Chwefror 2018. Gofynnodd MG a oedd wedi'i anfon at ymgynghoreion statudol. Bydd SW yn gwirio hynny.

HA i roi diweddariad ar y sefyllfa yn CSDd i aelodau'r Fforwm pan mae hi wedi siarad ag Adrian Walls. Ychwanegodd MG nad oedd wedi clywed dim gan CSDd hyd yma. Dywedodd HA nad oedd CSDd ar yr un cam yn y broses â CBSC.

Dywedodd TW y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod, fel Fforwm Mynediad Lleol, faint o ran y gallai'r Fforwm ei chael ac y byddai'n ddefnyddiol dweud wrth Fforymau Mynediad Lleol beth sydd ei angen drwy gydol y broses. Cyfeiriodd MG at bwynt 3.9 yng nghanllawiau adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, sy'n rhestru pwyntiau mewn perthynas â chyfranogiad Fforymau Mynediad Lleol. Gofynnodd TW a fyddai'n ddefnyddiol uno yn hytrach na mynd drwy'r broses ddwywaith gyda'r Fforwm Mynediad Lleol. HA a SW i gyflwyno'r sylwadau i reolwyr Hawliau Tramwy. Gofynnodd MG am is-grŵp a dywedodd SW y byddai'n well trafod gyda VC.

Dywedodd HS y byddai'n dda edrych ar awdurdodau lleol cyfagos ac fe holodd TW ynglŷn â'u cynnydd. Dywedodd TW ei bod yn anodd gan fod Sir y Fflint (CSFf) yn dod at ddiwedd tymor y Fforwm Mynediad Lleol presennol. Mae asesiadau bwrdd gwaith a chyflwr yn parhau. Dylid manteisio ar unrhyw gyfle i weithio ar draws ffiniau a dysgu ar y cyd.

Gofynnodd MG a fyddai modd cael ymgynghorydd ar y cyd ar gyfer yr awdurdodau lleol. Atebodd TW na fyddai, oherwydd bod cymorth allanol drwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'n amrywio rhwng siroedd, felly ni fydd modd cael un pwynt gwaith cydlynol.

Ychwanegodd HS bod wardeniaid tymhorol yn cynnal arolwg 13% yn CSDd. Gofynnodd PF a fyddai hwn yn gyfle i recriwtio gwirfoddolwyr. Gellid defnyddio grwpiau lleol yn y broses adolygu neu waith gweinyddol, neu gynnal arolygon. Efallai y byddai gan CGGC gyllid.

Dywedodd TW bod cyfraniad gan y cyhoedd yn ddefnyddiol ac roedd CSFf wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i'r arolwg cyflwr gael ei gwblhau gan grŵp bach o bobl er cysondeb. Ar ben hynny, byddant yn darparu arolwg ansoddol er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr sy'n gofyn cwestiynau fel;

O ble daethoch chi, sut oedd cyflwr y llwybr y bu i chi gerdded ar ei hyd, beth yw eich barn chi ar...

Bydd hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar y modd y mae ein rhwydwaith yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd PF y gellid hyfforddi gwirfoddolwyr i lefel uchel. Mae gan y Bartneriaeth Awyr Agored 850 o wirfoddolwyr gweithredol. Mae pob un wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant. Defnyddiodd SW fyfyrwyr wedi'u hyfforddi i gynnal yr arolwg Hawliau Tramwy yng Nghonwy ac mae hyn yn sicrhau cysondeb, ond fe all amrywio rhwng blynyddoedd gan ddibynnu ar y myfyrwyr.

Nododd KS bod nifer o deithiau cerdded yn cael eu trefnu pob wythnos a gofynnodd a fyddai modd rhannu taflen frifio gyffredinol yn hytrach na llwyth o ymatebion ac ystadegau. Gellid graddio'r rhain gan ddibynnu pa mor ddilys ydynt.

AP 4	Sian Williams i wirio bod llythyr adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i anfon at restr o ymgygoreion statudol	
AP 5	Hannah Arndt i gael diweddariad ar gynnydd yr adolygiad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Sir Ddinbych	
AP 6	Hannah Arndt i ddsbarthu Dogfen Ganllawiau ar adolygiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i aelodau	
AP 7	Hannah Arndt a Sian Williams i gyfleu sylwadau aelodau'r Fforwm am gyfranogiad y Fforwm Mynediad Lleol a gweithio ar draws ffiniau drwy broses adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.	

Gadawodd y Cyngorydd Martyn Holland y cyfarfod am 18:30.

Prosiect Milltiroedd Cymunedol

Rhoddodd HA drosolwg o'r prosiect Milltiroedd Cymunedol, a ddaeth i fod drwy Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Ddinbych. Ers ei ddechrau yn 2010, mae deg o lwybrau cerdded o gymunedau ar draws y Sir ac yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy bellach wedi'u darparu, ac mae prosiectau newydd ar fynd. Mae'r prosiect wedi llwyddo i gael cyllid o'r Cynllun Datblygu Gwledig drwy Gadwyn Clwyd ac mae'r prosiectau ar hyn o bryd yn cael eu hariannu drwy CNC.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda chynghorau cymuned i ddatblygu llwybr addas ac i ddod o hyd i fannau diddorol ar hyd y daith. Yna, mae taflen yn cael ei llunio sy'n dangos y llwybr ar ffurf OS, ynghyd â nodweddion diddorol, manau sy'n gwerthu lluniaeth ar y daith a lleoedd i aros yn lleol. Mae hi'n cynnwys gwybodaeth am y Cod Cefn Gwlad, teithiau cerdded eraill yn y gyfres Milltiroedd Cymunedol a nifer y calorïau a losgir ar y daith i'r rhai sy'n dymuno cerdded er mwyn cadw'n heini. Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo defnyddio a chynnal a chadw'r rhwydwaith hawliau tramwy ac mae'r ALL yn chwilio am bencampwyr ym mhob cymuned i gerdded ar hyd y llwybr a gwneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol fel tocio llystyfiant, gan roi gwybod am broblemau i'r tîm hawliau tramwy. Mae'r prosiect wedi'i ddefnyddio fel arfer orau ar gyfer cynllun ym Mhowys. Mae gwaith ar hyn o bryd yn cynnwys ychwanegu taflenni ar-lein ar gyfer ffonau symudol ac argraffu mwy o'r taflenni papur.

Roedd y Fforwm yn hoff o syniad y prosiect ac arddull cryno'r daflen, sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol. Gofynnodd KC am osod dyddiad ar y daflen ac fe awgrymodd TF bod HA yn cysylltu â'r cynghorau cymuned sydd â llwybrau ar hyn o bryd am gyflwr y llwybr ac ynglŷn â phencampwyr cymunedol.

Gofynnodd SW a oedd gan Gonwy gynlluniau i wneud rhywbeth tebyg. Mae gan Gonwy daflenni teithiau cerdded ar wahân ar gyfer gwahanol gymunedau ar wefan Conwy. Nid ydynt mor gryno â rhai Milltiroedd Cymunedol ac fe allent fod yn daflenni hanesyddol neu'n lyfrynnau main.

Credai MG ei fod yn syniad gwych ac y byddai'n dda ei gyflwyno i awdurdodau lleol eraill. Mae'r RA yn ceisio cael awdurdodau lleol eraill i wneud rhywbeth tebyg i hyn. Bydd HA yn dosbarthu adolygiad Montrayx ac astudiaeth achos Llangynhafal i'r Fforwm.

Gofynnodd DB sut y byddai cynghorau cymuned yn mynd ati i greu llwybr a gofynnodd a fyddai modd iddynt ddefnyddio'r model. Gallent, ond roedd y rhan fwyaf o gynghorau cymuned yn dymuno i'r ALL gyflawni'r prosiect ar eu cyfer.

Dywedodd KS y byddai'n dda gallu cyflawni cynllun tebyg yng Nghonwy, efallai gyda chymorth gwirfoddolwyr Trefriw. Nododd HS ei bod yn bwysig cefnogi gwasanaeth sy'n bod eisoes ac mae Conwy'n wahanol iawn i Sir Ddinbych o ran hynny. Dywedodd PF bod cyfle i wirfoddolwyr fynd i'r afael

â phethau fel hyn, er mwyn dibynnu llai ar gymorth yr All ac nid yw'n derbyn bod diffyg adnoddau'n esgus digonol.

Dyweddod SW bod Conwy wedi rhoi cynnig arni drwy gynllun Cerdded Conwy, ond bod mwy o waith i'w wneud.

Ychwanegodd HS ei bod yn bwysig ystyried cynaliadwyedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae'n dal angen staff llawn-amser er mwyn cefnogi gwirfoddolwyr yn eu gwaith. Rhannodd HS raglen wirfoddoli Sir Ddinbych i'r aelodau.

Gofynnod MG am eitem ar y rhaglen i drafod gwirfoddoli yn y cyfarfod nesaf ac fe awgrymodd y dylai CBSC ystyried sut maent yn recriwtio gwirfoddolwyr gan, o bosib, gael cyngor ffurfiol ar sut mae modd gwella. Ychwanegodd PF y gallai ddarparu seinydd ar gyfer 850 o wirfoddolwyr. HA i drafod gyda PF.

AP 8	Hannah Arndt i ddsbarthu astudiaeth achos Milltiroedd Cymunedol ac Adroddiad Montrayx	
AP 9	Eitem ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf: Gwirfoddoli. Hannah Arndt i drafod gyda PF ynglŷn â lleoliad a seinydd	

Gadawodd Howard Sutcliffe y cyfarfod am 19:05.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 7 Medi 2017 ar y Gogarth, Llandudno am 13:00

Ychwanegodd TF ddau sylw cyn i'r cyfarfod ddod i ben.

1. Daethpwyd â phrosiect o'r enw Gwylidwriaeth Goed at ei sylw yng nghyfarfod y Cadeirydd. Mae CNC yn arwain hwn fel ffordd o ddod o hyd i afiechydon coed. HA i rannu dolen at y wefan.
2. Problem gynyddol mewn perthynas â phoeni da byw yng ngogledd Cymru, sy'n ergyd fawr i'r gymuned amaethyddol. Soniodd TF am ymgyrchoedd gan y *Farmers Guardian* a Heddlu Gogledd Cymru. Ychwanegodd HA fod gan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ymgyrch a'u bod wedi bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol a'r gobaith yw y bydd hyn yn newid ymddygiad pobl. Nid yw TF yn gwybod beth sydd wedi achosi'r cynnydd ac fe awgrymodd TW y gallai rheolaethau llymach ar fannau cyhoeddus fod wedi peri i bobl fynd allan i gefn gwlad.